

Datganiad ar y cyd gan y Gweithgor ar Ganllawiau Clostridium botulinum

Datganiad ar y cyd gan y Gweithgor ar Ganllawiau Clostridium botulinum i weithio gyda'i gilydd a darparu adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt

Mae aelodau'r Gweithgor ar [ganllawiau Clostridium botulinum](#) wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd:

- er mwyn deall a blaenoriaethu'r materion sy'n ymwneud â'r oes silff 10 diwrnod gyfredol a argymhellir ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi'u pecynnu dan wactod (VP) neu drwy addasu'r atmosffer (MAP). (Pwynt ymgynghori A)
- i nodi dewisiadau i ddatrys materion a nodir.
- i anelu at ddatrys materion sydd â blaenoriaeth.

Mae'r Gweithgor yn cydnabod bod yn rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban gynnal eu hymrwymiad i gael eu harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth yn ystod yr adolygiad o'r canllawiau.

Mae aelodau'r Gweithgor yn cytuno i weithio gyda'i gilydd ac i ddarparu adnoddau gyda'r nod o gyflawni'r canlyniadau canlynol:

1. Sefydlu'r cynllun gwaith i'w gyflawni a pherchnogaeth dros weithgareddau perthnasol.
2. Cynnal adolygiad o'r safonau rhyngwladol a safonau cenedlaethol trydydd gwledydd ar gyfer oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP, gan gynnwys:
 - Manylion y safonau, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau a ddefnyddir gan wledydd eraill ar oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP.
 - Manylion sut mae gwledydd eraill yn ystyried risg *C. botulinum* a'r angen am fesurau rheoli i fynd i'r afael â'r risg honno.
3. Sefydlu perchnogaeth dros ganllawiau priodol i gynorthwyo gyda chymhwyso oes silff sydd wedi'i dilysu'n briodol (hynny yw, dyddiadau defnyddio erbyn) ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc ffres oer wedi'u pecynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer perthynas â *C. botulinum*, a darparu'r rhain.
4. Nodi a darparu tystiolaeth i lywio'r broses o gomisiynu adolygiad argymelledig ACMSF o'i [adroddiad o 1992 ar Becynnu dan Wactod a Phrosesau Cysylltiedig](#) (Saesneg yn unig), ac yn benodol y risg a berir gan *C. botulinum*.
5. Nodi tystiolaeth i gefnogi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r 'canllawiau ar ddiogelwch ac oes silff bwyd wedi'i oeri sydd wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu'r atmosffer mewn perthynas â *Clostridium botulinum* nad yw'n broteolytig' yn dilyn adolygiad a argymhellir gan yr ACMSF o'i adroddiad o 1992.

Sefydliadau a gynrychiolir ar y Gweithgor

[Asiantaeth Safonau Bwyd](#)

[Safonau Bwyd yr Alban](#)

[Consortiwm Manwerthu Prydain \(BRC\)](#)

[Cymdeithas Allforio Cig Gogledd Iwerddon \(NMEA\)](#)

[Cymdeithas Bwyd wedi'i Oeri \(CFA\)](#)

[Cymdeithas Cyfanwerthwyr Cig yr Alban \(SAMW\)](#)

[Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain \(BMPA\)](#)

[Ffederasiwn Masnach Darpariaethau \(PTF\)](#)

[Fforwm Porc a Chig Moch Gogledd Iwerddon](#)